I sylw rhieni rhieni blwyddyn 3 a 4/

Medi 10fed 2020

Annwyl riant,

Ein thema y tymor yma ydy 'Fi fy hun'. Mae'r thema yma yn canolbwyntio ar y corff a chadw ein hunain yn ddiogel ac yn iach. Bydd y plant yn cael cyfleoedd i wneud amrywiaeth o waith ymarferol yn ystod y thema. Byddwn yn dysgu am fwydydd iach a'r corff dynol, gan edrych yn benodol ar hanes Betsi Cadwaladr, Luis Braille a Martin Luther King. Byddwn hefyd yn edrych ar ein cymuned leol ac yn  astudio sut i fod yn ddiogel ar-lein.

Rydym yn awyddus i wrando ar lais y plentyn wrth gynllunio ac ar unrhyw gyfraniad rhieni. A fuasech cystal â thrafod gydag eich plentyn os oes gennych chi syniadau ar gyfer ein thema os gwelwch yn dda.

Rydym yn awyddus i rieni gyd-weithio i gasglu syniadau yn electroneg gan ddefnyddio'r rhaglen 'Padlet'. Er mwyn cael mynediad i'r bwrdd syniadau bydd angen sganio'r côd QR neu gopïo'r linc. Bydd syniadau pawb yn cael eu harddangos ar yr un daflen. Does dim angen cofrestru i ddefnyddio'r rhaglen yma.

Mae angen dillad addas ar gyfer Addysg Gorfforol ar Ddydd Mercher. Yn ystod y cyfnod hwn mae croeso i'r plant gadw eu gwisg addysg gorfforol mewn bag arwahan ar eu peg yn yr ystafell newid.

Bydd gwaith cartref yn cael ei osod drwy Google Classroom ar Ddydd Gwener i'w gyflwyno ddim hwyrach na Dydd Mercher.

Diolch am eich cyfraniad,

Mrs Heather Williams

Athrawes Dosbarth blwyddyn 3 a 4

https://padlet.com/williamsh1129/uc15idchtr94qjn5